



## Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg

### SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Goruchwyllo
<p><b>Cipio'r dewis iaith</b> Bydd GTADC yn gofyn beth ydy iaith ddewisol defnyddiwr y gwasanaeth ar y cysylltiad cyntaf.</p>	<p>Bydd yr adran sy'n cysylltu â defnyddiwr y gwasanaeth yn cofnodi'r dewis iaith a rhennir y wybodaeth hon ag adrannau mewnol eraill yn ôl y galw.</p>	<p>Mae gan bob Pennaeth Adran gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau'r Gymraeg o fewn eu cyfarwyddiaeth hwy eu hunain gan gynnwys cadw cofnodion a monitro.</p>
<p><b>Gohebiaeth</b> Pan fydd y Gwasanaeth yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, bydd y Gwasanaeth yn ymateb yn Gymraeg, os oes angen ymateb. Lle bydd y Gwasanaeth yn danfon gohebiaeth heb wybod beth yw iaith ddewisol y sawl sy'n ei derbyn, rhaid anfon yr ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. (Safonau 1, 4, 5 a 6) Bydd pob e-bost allanol a llythyrau papur pennawd a ddanfonir gan y Gwasanaeth yn cynnwys y datganiad canlynol o fewn y troedyn: (Safon 7) <i>Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.</i> <i>We welcome correspondence in Welsh and English - we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay.</i></p>	<p>Mae'r Gwasanaeth wedi cynhyrchu a chyhoeddi cyfarwyddyd ar ei fewnrwyd ar gyfer staff i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer danfon gohebiaeth i'r cyhoedd.</p> <p>Corfforwyd logos "Siarad Cymraeg" a "Dysgu Cymraeg" i dempledi bloc llofnod e-bost safonol y Gwasanaeth i aelodau staff ddefnyddio os ydynt mewn swyddi Cymraeg Hanfodol neu os ydynt am ddefnyddio eu logo Cymraeg yn y gweithle.</p> <p>Yr adrannau sy'n gyfrifol am osod troedyn e-byst corfforaethol a phapur swyddogol sydd wedi gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol.</p>	<p>Gwnaethpwyd y staff cyfan yn ymwybodol o'r angen i barchu dewis iaith neu i gyfathrebu'n ddwyieithog os oes angen. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i bob aelod staff unigol i fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol priodol i sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth â'r ddeddf.</p>

## SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

<b>Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio</b>	<b>Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg</b>	<b>Goruchwyllo</b>
<p style="text-align: center;"><b>Galwadau Ffôn</b></p> <p>Nid yw Safonau'r Gymraeg a roddir ar y Gwasanaeth yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar y Gwasanaeth i ateb galwadau 999 yn y Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y Gwasanaeth yn pennu nifer o swyddi yn yr Ystafell Reoli fel swyddi Cymraeg hanfodol er mwyn ymateb i alwadau 999 a wnaed yn Gymraeg lle bo'n bosib.</p> <p>Bydd gweithwyr y Gwasanaeth yn rhoi cyfarchiad cwbl ddwyieithog wrth ateb y ffôn. Dynodwyd swyddi sy'n ymwneud â dyletswyddau derbynfa o fewn y Gwasanaeth yn swyddi Cymraeg hanfodol a'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. (Safonau 8, 9, 13 ac 20) Gall staff nad ydynt yn siarad Cymraeg ddod o hyd i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ar restr ar fewnwyd y Gwasanaeth, a throsglwyddo galwadau iddynt os mai dyna yw dymuniad y galwr. (Safonau 10 a 18) Pan fydd y Gwasanaeth yn ffonio defnyddiwr y gwasanaeth am y tro cyntaf, gofynnir i'r defnyddiwr a fydd yn dymuno derbyn galwadau gan y Gwasanaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg o hynny ymlaen. Bydd y dewis iaith honno'n cael ei nodi a'i barchu. (Safon 21)</p>	<p>Mae'r Cyfarwyddyd Safonau'r Gymraeg i'r staff a gyhoeddir ar fewnwyd y Gwasanaeth yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau i'w dilyn os ydy'r galwr yn dymuno ymdrin â'r Gwasanaeth yn Gymraeg, lle nad yw'r sawl sy'n derbyn yr alwad yn siarad Cymraeg.</p>	<p>Hysbyswyd y staff cyfan fod angen parchu dewis iaith wrth ddelio â galwadau ffôn gan aelodau'r cyhoedd ac iddynt. Mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i bob aelod staff unigol fod yn gyfrifol ac yn atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i sicrhau y cynhelir cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth.</p>

## SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

<b>Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio</b>	<b>Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg</b>	<b>Goruchwyllo</b>
<p style="text-align: center;"><b>Cyfarfodydd</b></p> <p>Pan fydd y Gwasanaeth yn trefnu cyfarfod gydag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, gofynnir i fynychwyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Lle bydd unigolion yn mynegi dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd y Gwasanaeth yn parchu a darparu ar gyfer y dewis hwnnw.</p>	<p>Mae Cyfarwyddyd Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff a gyhoeddir ar fewnwyd y Gwasanaeth yn cynnwys y gweithdrefnau mewnol y dylid eu dilyn pe bai aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfod â chynrychiolwyr o'r Gwasanaeth.</p> <p>Mae tudalen Safonau'r Gymraeg ar fewnwyd y Gwasanaeth yn cynnwys y weithdrefn fewnol i'w dilyn wrth drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfarfodydd, pe bai angen hynny ac a ganiateir o dan y Safonau.</p>	<p>Bydd aelodau staff sy'n gyfrifol am drefnu cyfarfodydd gydag aelodau'r cyhoedd yn gyfrifol am ac yn atebol am sicrhau bod dewis iaith wedi'i gynnig, ei barchu a'i hwyluso.</p>
<p style="text-align: center;"><b>Dogfennau a Ffurflenni</b></p> <p>Ac eithrio cofnodion a phapurau'r Awdurdod Tân ac Achub, bydd unrhyw ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu gan y Gwasanaeth ar gael yn ddwyieithog. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio osgoi cynhyrchu dogfennau a ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân - fodd bynnag os nad oes modd osgoi hyn, bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y fersiwn hwnnw ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn yn cael eu trin yn gydradd ac ni fyddwn yn trin un fersiwn yn llai ffafriol na'r llall. (Safonau 38, 46 – 48B)</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bod llawer o gartrefi o fewn ei dalgylch sy'n cynnwys preswylwyr sy'n siarad Cymraeg, neu'n dysgu Cymraeg, a phreswylwyr eraill yn yr un eiddo nad oes ganddynt Gymraeg o gwbl. I'r diben hwn, mae'r Gwasanaeth yn gweithredu'i bolisi o gynhyrchu cynifer o'i adnoddau argraffedig ag sy'n bosib yn ddwyieithog, ar ffurf tudalennau cefn wrth gefn yn hytrach na chreu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.</p>	<p>Mae pob aelod staff yn ymwybodol o'r angen i gynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg ill dau. Mae gweithdrefn cyfieithu fewnol y Gwasanaeth yn cael ei hysbysebu'n drylwyr ac ar gael i staff ar dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnwyd. Mae tîm Cyfryngau'r Gwasanaeth yn gweithredu fel rheolwyr i sicrhau y cynlluniwyd a fformatiwyd pob dogfen a gynhyrchir yn fewnol yn y ddwy iaith ar yr un pryd.</p>

## SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Goruchwylio
<p style="text-align: center;"><b>Arwyddion a hysbysiadau</b></p> <p>Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus sy'n cael eu harddangos ar safleoedd y Gwasanaeth, gan gynnwys arwyddion a hysbysiadau dros dro, yn ddwyieithog, a bydd y testun Cymraeg wedi ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. (Safonau 58, 59 a 139 - 141)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn sicrhau bod y gofyniad i "roi'r Gymraeg yn gyntaf" ar gyfer arwyddion dwyieithog yn cael ei gynnwys yn yr holl dendrau a chontractau perthnasol ayyb a bod y gofyniad yn cael ei weithredu a'i fonitro.</p>	
<p style="text-align: center;"><b>Gwefannau a gwasanaethau ar-lein</b></p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn cynnal y gwefannau cwbl ddwyieithog canlynol: Mae'r holl dudalennau'n cael eu creu'n gyfartal o ran y Gymraeg a'r Saesneg, i fod yn gwbl weithredol ac â'r gallu i newid rhwng y ddwy iaith yn rhwydd. Yr unig wybodaeth nad sy'n cael ei diweddarau yn y ddwy iaith yr un pryd bob tro yw gwybodaeth mewn perthynas â digwyddiadau brys. Nid yw'n bosib bob tro i ddiweddarau'r math hwn o wybodaeth ddeinamig yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ond bydd y Gwasanaeth yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog am ddigwyddiadau brys cyn gynted â phosib. Nid yw'r Gwasanaeth fel arfer yn cynnig gwasanaethau ar-lein - fodd bynnag mae prosesau recriwtio'n cael eu hyrwyddo a'u gweinyddu ar-lein ac maent bob amser yn gwbl ddwyieithog. (Safonau 49, 52 a 53)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn creu tudalen newydd ar ei brif wefan er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r cyhoedd am sut i gael mynediad i wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau brys yn Gymraeg yn ogystal ag egluro pa gyfleoedd eraill sydd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â'r Gwasanaeth.</p>	<p>Tîm Cyfryngau'r Gwasanaeth sy'n rheoli'r broses o ddiweddarau'r brif wefan yn fewnol. O bryd i'w gilydd, bydd Swyddog Cymraeg y Gwasanaeth yn cynnal ymarfer gwirio ansawdd ar hap i sicrhau bod holl wefannau'r Gwasanaeth yn cael eu cynnal yn ddwyieithog.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr, naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, mewn perthynas ag ansawdd a hygyrchedd ei wefan. Os hoffech chi gynnig adborth, cysylltwch â'r Gwasanaeth: <a href="mailto:GTADC@decymru-tan.gov.uk">GTADC@decymru-tan.gov.uk</a> neu <a href="mailto:swfrs@southwales-fire.gov.uk">swfrs@southwales-fire.gov.uk</a></p>

## SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU

Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Goruchwylio
<p><b>Gwasanaethau Derbynfeydd</b></p> <p>Mae Pencadlys y Gwasanaeth wedi ei leoli yn Llantrisant, Rhondda Cynon Taf, a dyma lle lleolir ei brif dderbynfa. Mae'r ddwy swydd derbynnydd wedi'u dynodi'n swyddi Cymraeg hanfodol ac mae siaradwyr Cymraeg yn llenwi'r swyddi hynny.</p> <p>Nid oes gan y Gwasanaeth safleoedd eraill lle gweithredir gwasanaeth derbynfa i'r cyhoedd (Safonau 61, 64 a 65)</p>	<p>Oherwydd polisi'r Gwasanaeth ar gyfer dynodi ei swyddi derbynfa yn swyddi Cymraeg hanfodol, darperir gwasanaeth dwyieithog yn nerbynfa'r Pencadlys rhwng 09.00 a 17.00 o Ddydd Llun i Ddydd Iau, ac 08.30 i 16.30 ar Ddydd Gwener. Mae staff sy'n cyflenwi dyletswyddau derbynfa yn ystod amser egwyl, cyfnodau o absenoldeb salwch ayyb yn cael eu hyfforddi i ddelio ag ymwelwyr a galwyr fel y cânt ddarparu gwasanaeth derbynfa cyfrwng Cymraeg hyd yn oed os nad ydyn nhw eu hunain yn siarad Cymraeg.</p>	<p>Mae Pennaeth Cefnogi Busnes y Gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gwasanaeth derbynfa dwyieithog ar gael o fewn yr oriau a nodwyd.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas ag ansawdd ei wasanaeth Cymraeg yn y dderbynfa.</p>
<p><b>Dyfarnu contractau</b></p> <p>Bydd y Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg mewn gweithdrefnau caffael yn ei gyfarwyddyd i ddarpar gyflenwyr a'i gyfarwyddyd i staff ill dau. Bydd gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad sy'n nodi'n glir bod modd cyflwyno tendrau yn y Gymraeg, ac na fydd unrhyw dendrau a ddanfonir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn y Saesneg.</p> <p>Os gwahoddir y tendrwr i gyfweiliad fel rhan o asesiad y tendr, gofynnir iddynt a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn ystod y cyfweiliad a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn trefnu, oni bai bod modd cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. (Safonau 73,</p>	<p>Bydd aelodau staff sy'n cymryd rhan yn y broses dendro ac sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant pwrpasol yn y Gymraeg i ymglyfarwyddo'u hunain â'r eirfa benodol sydd ynghlwm â chaffael.</p>	<p>Pennaeth yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r broses dendro.</p>

**SAFONAU DARPARU GWASANAETHAU**

<b>Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio</b>	<b>Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg</b>	<b>Goruchwylio</b>
<p><b>Cyrsiau addysgol a gynigir i'r cyhoedd</b> Mae'r Gwasanaeth yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ac ymweliadau addysgol sydd ar gael naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg.</p>	<p>Dynodwyd nifer o swyddi o fewn Adran Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth yn swyddi Cymraeg hanfodol er mwyn gallu darparu cyrsiau ac ymweliadau addysgol yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Cynigir cyfle i dderbyn hyfforddiant pwrpasol yn y Gymraeg i aelodau staff sy'n cynnal y cyrsiau a'r ymweliadau hyn ac sy'n Gymry Cymraeg rhugl er mwyn iddynt ymgyfarwyddo'u hunain â'r eirfa benodol sydd ynghlwm.</p>	<p>Pennaeth Diogelwch Cymunedol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n ymwneud â darparu cyrsiau addysgol i'r cyhoedd.</p>

**SAFONAU LLUNIO POLISI**

<p>Mae'r holl bolisiau, prosiectau, gweithdrefnau a mentrau newydd y mae'r Gwasanaeth yn eu rhoi ar waith yn amodol ar Aseiad Risg Cydraddoldeb (ARC). Fel rhan o'r ARC, gofynnir i staff sy'n llunio polisiau newydd ystyried yr effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol a all ddeillio o'r polisi hwnnw i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Corfforwyd canllawiau newydd i staff am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o fewn y canllawiau cyffredinol ar gyfer cwblhau Aseidiadau Risg Cydraddoldeb. (Safonau 85-90 a 92-94)</p>	<p>Yn ogystal ag adnabod sut y gall polisi gael effaith negyddol ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg, gofynnir i staff ystyried sut all y polisi arwain at ganlyniadau cadarnhaol, neu sut gellir addasu'r polisi i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol.</p>	<p>Mae'r Gwasanaeth yn asesu pa mor dda mae goblygiadau'r Gymraeg yn cael eu cydnabod drwy'r broses Asesu Risg Cydraddoldeb. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am graffu a chymeradwyo'r ARC a gwblhawyd gan eu rheolwyr canol.</p>
--	--	---

## SAFONAU GWEITHREDOL

Sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio	Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg	Goruchwylio
<p><b>Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol</b> Yn unol â safon 95, mae'r Gwasanaeth wedi datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r iaith yn fewnol. Mae polisi'r Gwasanaeth ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol wedi'i gyhoeddi ar dudalen Safonau'r Gymraeg y fewnrwyd. (Safon 95)</p>	<p>Mae polisi'r Gwasanaeth ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn Fewnol yn amlygu'r cyfleoedd i staff ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg gyda chydweithwyr a defnyddwyr y gwasanaeth ill dau, <u>e.e.</u> gwisgo sticer â logo "Siarad Cymraeg"/ "Dysgu Cymraeg" ar eu helmedau tân, ceisio am swyddi mewnol yn Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol mewn cyfarfodydd ayyb.</p>	<p>Cesglir tystiolaeth am sut y mae timau a rheolwyr yn hyrwyddo a gweithredu ethos dwyieithog o fewn eu gweithleoedd a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg drwy law'r broses adrodd statudol.</p>
<p><b>Swyddi newydd</b> Wrth gynnig swydd newydd i unigolyn, gofynnir i ddeilydd y swydd a ydynt yn dymuno cael cytundeb cyflogaeth Cymraeg neu Saesneg. Os mai'r Gymraeg a ddewisir, darperir y cytundeb yn Gymraeg. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cynnig y dewis o dderbyn fersiwn Gymraeg a Saesneg o'u cytundeb cyflogaeth ill dau os mai dyna yw dymuniad yr unigolyn. (Safon 96)</p>	<p>Mae prosesau mewnol Adnoddau Dynol wedi cael eu hadolygu a'u diwygio i sicrhau bod gweithwyr newydd yn gallu dewis iaith ar ddechrau'r broses recriwtio ac y darperir ar gyfer y dewis hwnnw ym mhob cam wrth symud ymlaen yn y broses o fod yn ymgeisydd i fod yn gydweithiwr.</p>	<p>Mae Pennaeth AD wedi cymeradwyo a chyflwyno cynllun gweithredu i sicrhau y corfforir Safonau perthnasol i fusnes craidd y Gwasanaeth.</p>
<p><b>Defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol corff</b> Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'i brosesau, gweithdrefnau a dogfennaeth AD i sicrhau bod modd i staff dderbyn y canlynol yn Gymraeg heb oedi os ydynt yn dymuno:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gohebiaeth bapur yn gysylltiedig â'u cyflogaeth</li> <li>• Dogfennau sy'n amlinellu eu</li> </ul>	<p>Gwnaed staff yn ymwybodol o'u hawliau o dan y Safonau drwy law'r canllawiau i staff a gyhoeddwyd ar dudalen Safonau'r Gymraeg y fewnrwyd.</p>	<p>Bydd nifer y staff sy'n dewis derbyn y dogfennau y cyfeiriwyd atynt yn Safonau 97 – 101 yn cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.</p>

<p>hanghenion hyfforddi neu ddysgu</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad</li> <li>• Dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa</li> <li>• Ffurflenni sy'n cofnodi ac awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio hyblyg. (Safonau 97 – 101)</li> </ul>		
<p><b>Polisiau AD</b> Bydd y polisiau a restrir yn Safonau 102-108 yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>		
<p><b>Cwynion a disgyblu</b> Mae'r Gwasanaeth wedi diwygio ei bolisi ar drafodion cwyno a disgyblu i gynnwys datganiadau sy'n nodi y gall staff ddewis cyfranogi mewn prosesau cwyno neu ddisgyblu naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg yn unol â'u dewis personol. Mae hyn yn cynnwys gwneud cyhuddiadau, ymateb i gyhuddiadau, rhoi datganiadau mewn cyfweiliadau ayyb. (Safonau 109 -116)</p>		<p>Bydd nifer y staff sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg wrth gyfranogi yn y prosesau cwyno a disgyblu'n cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.</p>
<p><b>Meddalwedd</b> Mae pob aelod staff sydd mewn swyddi Cymraeg hanfodol a staff sy'n defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gweithle yn wirfoddol yn cael cynnig gosod meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cysgliad ar eu cyfrifiaduron. (Safon 117)</p>		
<p><b>Y fewnrwyd</b> Mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn a chwblhau llif gwaith prosiect sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad i gael tudalen mewnwyd ddwyieithog erbyn 30.09.18. (Safon 119)</p>	<p>Bydd y Gwasanaeth yn manteisio ar unrhyw gyfle sy'n codi i eithafu'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddylunio a gweithredu'r fewnrwyd ddiwygiedig. Disgwylir i'r cyfleodd hyn amlygu'u hunain wrth gwblhau ARC ac wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen.</p>	<p>Bydd Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y prosiect cyfan, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.</p>



<p><b>Aseu sgiliau iaith Gymraeg</b> Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd AD newydd i gynnal ymarferiad casglu data gyda staff. Gofynnir i staff hunan-asesu eu sgiliau iaith Gymraeg o ran darllen, ysgrifennu a siarad ar lefelau rhwng 0-5 ar gyfer y tri chategori hyn. (Safon 124)</p>	<p>Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu fydd yn ffurfio sail i strategaethau a pholisïau AD y dyfodol, <u>e.e.</u> cynnig cyfle i staff sydd â sgiliau Cymraeg nas defnyddiwyd ers tro i ymgymryd â hyfforddiant gloywi iaith, trosglwyddo staff o fewn rolau ayyb.</p>	<p>Bydd proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn cael ei fonitro a'i hadrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol.</p>
<p><b>Hyfforddiant iaith Gymraeg</b> Pan gynigir cyrsiau a restrir yn Safon 125 i staff, bydd cyfle iddynt fynychu sesiwn drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg, yn unol â'u hiaith ddewisol. Defnyddir hyfforddwyr Cymraeg o'r Gwasanaeth i ddarparu'r cyrsiau hyn, pa un ai a ydynt yn arbenigwyr yn y maes ai peidio. Cynigir cyrsiau a restrir o dan Safon 126 i staff drwy gyfrwng y Gymraeg a byddant yn cael eu hyfforddi gan Hyfforddwyr Cymraeg o'r Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau sector cyhoeddus eraill i ddarparu'r cyrsiau hyfforddi a restrwyd yn Safonau 125 a 126. Mewn perthynas â Safonau 127 ac 128, mae gweithwyr y Gwasanaeth yn gallu derbyn gwersi Cymraeg wrth fynychu dosbarthiadau yn eu cymunedau drwy law Dysgu Cymraeg Cymru</p>		<p>Byddwn yn monitro ac adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol ar nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg, eu lefel astudio ac unrhyw gymwysterau a ennillir.</p>
<p><b>Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg</b> Mae'r Gwasanaeth yn darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar gyrsiau anwytho i staff newydd. (Safonau 129 a 130)</p>		<p>Bydd nifer y staff a fynychodd neu a gwblhaodd gyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Awdurdod Tân ac Achub yn flynyddol.</p>
<p><b>Aseu gofynion sgiliau iaith Gymraeg pob swydd wag</b> Pan grëir swydd newydd, neu pan adolygir</p>		<p>Bydd nifer y rolau Cymraeg hanfodol o fewn y Gwasanaeth a'u natur yn cael eu monitro a'u hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac</p>

<p>swydd gyfredol, bydd rheolwr llinell y swydd honno ac aelod o AD yn asesu'r sgiliau iaith Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y swydd honno. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar y swydd ddisgrifiad, <u>h.y.</u> ydy'r swydd yn cynnwys cyswllt â'r cyhoedd, os felly pa mor aml maent yn darparu gwasanaeth ayyb. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio cyfres o lefelau sgiliau sy'n seiliedig ar fframwaith ALTE yn ogystal â chyfres o ddatganiadau "gallu gwneud" i bennu ba lefel o Gymraeg sy'n ofynnol ar gyfer y rôl. (Safonau 134 - 135B)</p>		<p>Achub.</p>
---	--	---------------

<p><b>Ffurflenni cais</b> Diwygiwyd ffurflenni cais y Gwasanaeth i gynnwys gofynion Safon 137.</p>		<p>Bydd nifer yr ymgeiswyr ar gyfer swyddi sy'n dewis cwblhau eu ffurflenni cais yn Gymraeg a chael/neu gael cyfweliad yn Gymraeg yn cael ei fonitro a'i adrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.</p>
--	--	---

**SAFONAU CADW COFNODION A SAFONAU SY'N YMDRIN Â MATERION ATODOL**

<p>Bydd y Gwasanaeth yn cofnodi a monitro'r holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Safonau 143-171. Bydd yr wybodaeth ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg ar gais ac yn ddi-oed.</p>		<p>Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn crynhoi a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol a gyhoeddir ar ei brif wefan.</p>
---	--	---